


AMGUEDDFA
CYMRU



Uên Gwerin Cymru



Welsh Folklore



Adnodd addysg digidol gyda lluniau wedi'i anelu at ddysgwyr Cymraeg, dysgwyr ESOL ac unrhyw un â diddordeb yn llên gwerin Cymru. Mae'n cynnwys esiamplau o gymeriadau allweddol sydd i'w gweld ar draws llên gwerin Cymru a straeon traddodiadol, gan roi disgrifiad bras yn Gymraeg a Saesneg.

This illustrated digital learning resource is aimed at Welsh Learners, ESOL Learners and those interested in Welsh folklore. It provides examples of some of the key characters who appear throughout Welsh folklore and traditional stories, giving a brief description of each in Welsh and English.

Y Forwynion

Mae'r forforwyn yn aml wedi'i chysylltu â darogan stormydd, neu efallai taw hi sydd â'r pŵer i newid y tywydd a chreu stormydd?


Yn llên gwerin Cymru bydd y forforwyn yn bendithio pawb sy'n ei helpu neu achub ei bywyd, ond yn melltithio unrhyw un fydd ddim yn helpu. Weithiau bydd cymunedau cyfan yn cael eu melltithio, fel yng Nghonwy.

Gall y forforwyn fod yn help mawr i forwyr a physgotwyr, ond mae hi'n bwerus a pheryglus iawn hefyd.

In Welsh stories, the mermaid seems to be able to predict storms, or maybe they have the power to change the weather and create storms?

The mermaids in Wales are famous for giving blessings to those that help them or save their lives but will curse those that don't help. Sometimes whole communities are cursed as happened in Conwy.

Mermaids can be very helpful to sailors and fishermen but are very powerful and dangerous.



Gwraig Annwn



Un o'r Tylwyth Teg yw Gwraig Annwn. Mae hi'r un maint â pherson normal, ac yn edrych fel menyw brydferth iawn.

Bydd hi'n ymddangos o afonydd a llynnoedd, yn enwedig llynnoedd mynydd, gan ddod â rhoddion ac anifeiliaid hud yn anrheg i'r dyn mae hi am ei briodi.

Yn llawer o'r straeon hyn fydd y dyn ddim yn cymryd ei rhybuddion o ddifri, gan anghofio a gwneud gormod o gamgymeriadau, nes bod y Wraig yn gadael a mynd a phob anrheg ac anifail yn ôl gyda hi i'r dŵr.

The Gwraig Annwn are a part of the Tylwyth Teg, the fair folk (fairies). They look like very beautiful women and are the same height as humans.

They come from the rivers and lakes, especially from mountain lakes and bring with them gifts and magical animals which are given to the mortal man they have chosen to marry.

In lots of these stories, it seems the men don't understand the customs or just don't take them seriously and make too many mistakes, which leads to the Gwraig Annwn to leave with all her gifts and return to the water.



Y Coblyn

Mae'r Coblyn yn un o'r Tylwyth Teg sy'n gweithio danddaear. Does neb yn gwybod yn iawn ble mae'n byw – mewn llefydd cudd yn y mynydd efallai?

Roedd glowyr yn disgrifio'r Coblyn fel creadur byr wedi gwisgo fel glöwr. Roedd e'n weithiwr caled danddaear, ond yn ofnadwy o salw a blewog.

Byddai'n ffrind da i'r glowyr, ac yn aml yn eu helpu i ganfod gwythïen newydd o lo, copr neu pa bynnag fwyn gwerthfawr oedden nhw'n cloddio amdano. Byddai'r Coblyn hefyd yn gallu rhybuddio'r glowyr am unrhyw berygl.

They are part of the Tylwyth Teg and according to descriptions they are found working underground. No-one knows where they dwell, but maybe they live in the secret hidden parts of the mountains.

The miners described the Goblins as being short creatures who dress like miners. They work very hard underground but are ugly and hairy.

They were very good friends with the miners and would help the miners find new seams of coal or copper, or whatever they were searching for. They would also warn the miners of any danger.



Gwrach y Rhibyn


Mae stori am Wrach y Rhibyn yng Nghaerffili, oedd yn sgrechian a chrio wrth hedfan o gwmpas ffos y castell (sy'n cael ei bwydo gan nant fach y Gledyr). Pan fyddai hi'n bwrw glaw yn drwm, byddai pobl Caerffili yn dweud bod Gwrach y Rhibyn i'w gweld yn hedfan o gwmpas porthdy a waliau'r castell, yn sgrechian enwau pawb oedd ar fin marw.

Roedd un stori yn disgrifio Gwrach y Rhibyn fel drychiolaeth newynog, bron fel corff, gyda gwallt a dannedd hir du, a llygaid mewn tyllau dwfn. Roedd ganddi adenydd hefyd, tebyg i ystlum.

There is a story about the Gwrach y Rhibyn found in Caerphilly where she screeches and cries as she flies about the moat of the castle which is fed by a stream called Nant Gledyr. It is said that when it rains heavily, local people used to say they could see the Gwrach y Rhibyn flying around the gatehouse and walls of the castle, screeching out the names of those about to die.

One description of the Gwrach y Rhibyn was that she looked like a famine, a corpse, with long black hair, long black teeth and sunken eyes. She also had two wings, bat like in appearance.





Y Cawr

Mae'r Cawr yn ymddangos mewn sawl stori yn llen gwerin Cymru. Weithiau bydd y cawr yn un da sy'n helpu ac arwain y pobl, fel Bendigeidfran. Mewn straeon eraill bydd y cawr yn greulon, fel Ysbaddaden Bencawr. Mae'r ddau gymeriad hyn yn ymddangos yn y Mabinogi.

Mae cewri eraill yn perthyn i nodweddion naturiol y tirlun – fel mynyddoedd (Cader Idris). Mae'r Cawr yn aml yn gymeriad cryf, creulon, sy'n codi ofn ac yn achosi problemau. Bydd e'n aml yn bwyta holl anifeiliaid y fferm, neu hyd yn oed y bobl leol!

Giants are in many the stories in Welsh culture. Sometimes the giant is beneficial to the people, such as Bendegeidfran. Other times they are like Ysbaddaden Pencawr, the head or king of Giants. He is more cruel. Both are found in the Mabinogi.

Others are associated with natural features such as mountains (Cader Idris). Often giants are characters that are strong, scary and nasty. They are the ones that cause problems, eating all the livestock on a farm or eating people from the local community!

AMGUEDDFA CYMRU



Gellir dod o hyd i
fwy o adnoddau yn...

More resources can
be found at...

*amgueddfa.cymru/dysgu/
museum.wales/learn/*